

CYNGOR IEUENTID CONWY YOUTH COUNCIL



Beth yw'r Cyngor Ieuentid?

Mae Cyngor Ieuentid Conwy yn grŵp o bobl ifanc (rhwng 11 a thua 25 oed) gyda'r nod o ddarparu cyfle i'r holl bobl ifanc sy'n byw yn sir Conwy i ddweud eu dweud am y pethau sy'n effeithio arnoch chi. Mae hwn yn gyfle gwych i gwrdd â phobl ifanc eraill o Conwy ac i gael dylanwad go iawn ar y modd mae pethau'n cael eu rhedeg yn y sir.

O'ch

Addysg ac Iechyd,
i bethau rydych yn eu gwneud yn eich **Amser Hamdden** a sut rydym yn cynllunio ar gyfer eich dyfodol yng Nghonwy.

Felly beth ydym wedi ei wneud yn ddiweddar?

Gwella cyfleoedd profiad gwaith.

Gweithio gyda TAPE i ffilmio clipiau Youtube ar gyfer ein prosiect iaith Gymraeg Creu gwaith celf ar gyfer prosiect Plant dan Ofal.

Wedi bod ar gyrsiau hyfforddiant ac adeiladu tîm. Cyfarfod yn rheolaidd gyda phobl sy'n gwneud penderfyniadau yng Nghonwy. A llawer mwy...."

Chi sy'n bwysig!

Sut mae bod yn rhan o Gyngor Ieuentid Conwy?

Mae dau gynrychiolydd o bob ysgol uwchradd yng Nghonwy a phedwar cynrychiolydd o Goleg Llandrillo. Mae aelodau yn cael eu hethol yn ddemocrataidd (pleidlais) o fewn eich ysgol neu goleg. (Mae pob ysgol yn gwneud hyn mewn ffordd wahanol - gofynnwch i'ch athrawon neu gynrychiolwyr presennol). Nid ydym o reidrwydd yn chwilio am aelodau cynghorau ysgol i fod yn gynrychiolwyr oherwydd mae ganddynt lawer o gyfrifoldebau yn barod.



Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy
Conwy Children & Young People's Partnership

Beth a ddisgwylir gan Aelodau Cyngor Ieuentid?

- Yn fodlon ac yn gallu dod i gyfarfod ddwywaith y mis (gyda'r nos) a diwrnodau hyfforddiant achlysurol (penwythnos). Penwythnos gyntaf 17-18 Hydref 2014
- 11-25 oed
- Byw yn sir Gonwy
- Yn fodlon cynrychioli'r bobl ifanc eraill yn eich ysgol/coleg (trwy eich cyngor ysgol/cynrychiolwyr cwrs) ac yn gallu gwneud hynny
- Cymryd rhan fel grŵp mewn prosiectau i wella pethau ar gyfer pobl ifanc yng Nghonwy (gan weithio gyda Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Conwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
- Aros ar y Cyngor Ieuentid am hyd at ddwy flynedd (ymrwmiad o flwyddyn o leiaf)



Am fwy o wybodaeth, ewch i
www.conwyouthcouncil.org.uk

Siaradwch gyda'ch cynrychiolwyr
presennol yn eich ysgol/coleg,
neu cysylltwch â'r Tîm Cyfranogi
participation@conwy.gov.uk neu
Nick.Meakins@conwy.gov.uk
01492 574119

Nid yw aelodau'r Cyngor Ieuentid yn cael eu talu, ond ni fydd cost o gwbl i chi fod yn rhan o'r Cyngor Ieuentid - byddwn yn gwneud yn siŵr eich bod yn gallu mynd a dod o gyfarfodydd a byddem yn talu unrhyw gostau eraill fel eich bod yn gallu gwneud popeth i gyflawni eich rôl.

Ac eithrio'r pethau sylfaenol sef cynrychioli eich ysgol/coleg a dod i'r hyfforddiant a'r prif gyfarfodydd, gallwch wneud cymaint neu gyn lleied ac ydych eisiau.



CyngorIeuentidConwyYouthCouncil



@CIConwyYC

